**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2002 |
| Amser: | 9:15 am tan 12.00pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn Bresennol:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Sue Essex, Gweinidog yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Denzil Jones (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Kay Powell (eitemau 2 a 3) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| Robert Williams (eitem 3) | Pennaeth Polisi Gwastraff |
| Andy Rees (eitem 3) | Pennaeth yr Uned Strategaeth Wastraff |

| | |
|---|---|
| June Milligan (eitemau 4 a 5) | Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Grant Duncan (eitem 4) | Pennaeth Uned Cynllun Gofodol Cymru |
| Neil Hemington (eitem 4) | Uned Cynllun Gofodol Cymru |
| ***Yr Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y rhai a oedd yn bresennol ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod Pwyllgor.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn caniatâd y Pwyllgor Busnes i gwrdd ar 16 Ionawr yn hytrach na 22 Ionawr er mwyn ystyried y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol, a fyddai'n cyrraedd y pwyllgor yn Nhy'r Cyffredin yn gynt na'r disgwyl.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** -EPT-19-02 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol wedi cael ei ail-ddarlleniad yn Nhy'r Cyffredin y diwrnod blaenorol. Dywedodd hefyd y byddai Cymru, o fis Ebrill 2003, yn derbyn cyfran Barnett o'r Cynllun Credyd Treth Tirlenwi, sy'n debygol o fod yn £5 miliwn y flwyddyn.

2.2 Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd:

**Cefn Gwlad**

- Bioamrywiaeth - croesawyd lansiad Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr;

**Diogelu’r Amgylchedd**

- Asiantaeth yr Amgylchedd - yr angen i'r Asiantaeth fod yn fwy ymatebol ar lawr gwlad er mwyn bodloni disgwyliadau cynyddol y cyhoedd;

- Amddiffyn rhag Llifogydd - mae camau yn cael eu cymryd i ddiogelu cymunedau rhag llifogydd a'r angen i seilio modelau rhagweld llifogydd ar ddata dibynadwy;

- Cadw Cymru'n Daclus - yr angen i fynd i'r afael â sbwriel fel rhan o'r Strategaeth Wastraff.

**Cynllunio**

- Perygl llifogydd - rôl yr Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth ystyried opsiynau amgen i'r caniatâd presennol ar dir sydd mewn perygl o lifogydd;

- Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) - cais am fanylion y Nodiadau hynny sy'n cael eu hadolygu ac amcangyfrif o'r dyddiadau cyhoeddi. Bydd y Gweinidog yn darparu'r rhain y tu allan i'r pwyllgor.

**Cludiant**

- Cyfarfod Newtork Rail - croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelod o Network Rail;

- Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) - pryder bod yr SRA yn gwahodd ceisiadau ar gyfer masnachfraint rheilffordd, gan gynnwys Wales and Borders, i amlinellu'r gwasanaethau y gellid eu darparu gyda gostyngiad o 10-20% mewn cymhorthdal, ynghyd ag opsiynau ar gyfer mwy o wasanaethau;

- Menter Gyrru Arafach - croesawu'r fenter a'r cais am adroddiad ar y canlyniadau y tymor nesaf;

- Traffig trwm - roedd ychydig o bryder am y mecanweithiau a ddenfyddir i leihau traffig trwm ar y rhwydwaith ffyrdd.

**<u>Camau i'w cymryd</u>**

- **Y Gweinidog i ddarparu rhestr o'r Nodiadau Cyngor Techengol sydd eisoes wedi'u hadolygu, y rhai sydd wrthi'n cael eu hadolygu gyda'r amserlenni cyhoeddi a'r Nodiadau sydd angen eu hadolygu.**

**Eitem 3: Cynllun Gweithredu Strategaeth Wastraff Cymru** - EPT-19-02 (p2)

3.1 Amlinellodd y Gweinidog a'r swyddogion y prif gamau sydd ar y gweill i weithredu'r Strategaeth Wastraff. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd wrth drafod:

- Ymwybyddiaeth y cyhoedd - yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i addysgu'r cyhoedd os bwriedir bodloni'r targedau ar gyfer lleihau gwastraff yn y cartref ac ailgylchu;

- Ailgylchu - roedd pryder am hynt y gwaith i fodloni'r targed o ailgylchu 15% o wastraff bwrdeistrefol erbyn 2003, a mwy o bwyslais ar fonitro targedau. Yr angen am fesurau pellach i hyrwyddo lleihau gwastraff, yn enwedig deunydd pacio, ac i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer nwyddau wedi'u hailgylchu, fel bod ailddefnyddio ac ailgylchu yn gallu dod yn fwy atyniadol yn fasnachol;

- Grwpiau cynllunio rhanbarthol - cydnabod rôl hanfodol awdurdodau cynllunio lleol wrth wneud penderfyniadau cadarn ar leoli cyfleusterau;

3.2 Byddai'r Pwyllgor yn mynd ar drywydd datblygu marchnadoedd ar gyfer ailgylchu yn y gwanwyn gyda'r Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) ac Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru.

**Eitem 4: Y diweddaraf am Baratoi Cynllu Gofodol Cymru** - EPT-19-02 (p 3)

4.1 Amlinellodd y Gweinidog a'r swyddogion hynt paratoi Cynllun Gofodol Cymru. Roedd y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i baratoi Cynllun Gofodol i Gymru.

4.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y materion canlynol:

- Arferion gorau Ewropeaidd - cefnogaeth i dynnu ar brofiad y partneriaid Ewropeaidd;

- Cysylltiadau rhanbarthol - yr angen i adlewyrchu darpariaeth gwasanaethau traws-ffiniol yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru;

- Perthynas â chynlluniau datblygu - yr angen i sicrhau bod cydgysylltu rhwng y Cynllun Gofodol a'r cynlluniau datblygu trwy gydbwyso gweithredu o'r gwaelod i fyny a'r pen uchaf i lawr;

- Data - roedd pryder na fyddai data allweddol cyfrifiad 2001 ar gael tan fis Chwefror 2003.

4.3 Bydd Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn yr haf.

**Eitem 5: Adolygiad bioamrywiaeth: adroddiad drafft** - EPT-19-02(p 4)

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i gytuno ar ei adroddiad ar yr adolygiad o weithredu bioamrywiaeth lleol. Esboniodd y byddai'r tabl sy'n amlinellu hynt gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Atodiad 2) yn cael ei ddiweddaru cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

5.2 Cytunodd y pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad, yn amodol ar y gwelliant canlynol i argymhelliad 2:

> the Welsh Assembly Government considers means of strengthening local government commitment to local biodiversity action, and encourages presses all Local Authorities in Wales to adopt Local Biodiversity Action Plans (LBAPs) as supplementary planning guidance, in line with planning policy guidance, and use them to underpin Community Strategies;

5.3 Byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno'r adroddiad gerbron y cyfarfod llawn ar 25 Chwefror 2003.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2002** -EPT-18-02 (cof)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd ac awgrymodd y dylai rhestr o'r camau i'w cymryd gael ei gofnodi yn y dyfodol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 2.00am ddydd Iau 16 Ionawr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rhagfyr 2002**